# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD MAI 2022

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 18eg o Fai, 2022** |
| **AMSER** | **7.00y.h. Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Capel Rhotryfan** |
| **CADEIRYDD** | **Jason Hunt** |

### 1. CROESO

Nid oedd posib i'r Cadeirydd fynychu ar flaen y cyfarfod oherwydd pwysau gwaith. Cytunodd Michelle Williams **(MW)** gadeirio ar y noson. Cychwynnodd y cyfarfod gyda llongyfarchiadau I HR sydd nawr yn Gynghorydd Sir ar gyfer Llanwnda.

Yn bresennol heno roedd Gwilym Thomas **(GVT)**, Nerys Evans **(NE)**, Gwilym Williams **(GLW)**, Huw Rowlands **(HR)**, Alan Hughes **(AH),** Tom Ellis **(TE)**, Jason Hunt **(JH)** ac Gillian Thomas (y Clerc),

### 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elin Evans **(EE)**, Aeron Maldwyn Jones **(AMW),** Arwyn Herald Roberts **(AHR)**

### 3. DATGAN BUDDIANT

Dim

### 4. CADARNHAU COFNODION EBRILL 2022

Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GVT gyda GLW yn eilio a phawb yn cytuno.

### 5. MATERION YN CODI

**a) GT - TWMPATHAU CYFLYMDER RHOSTRYFAN**

Derbyniwyd cadarnhad gan Beiriannydd Ardal Arfon bydd gwaith i atgyweirio'r twmpathau yn cael ei wneud yn fuan.

**b) GW – DWR YN CASGLU RHWNG MYNWENT CEFNFAES A RHWNGDDWYRYD YN RHOS ISAF**

Nodwyd bod swyddogion wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith pan fydd adnodd ar gael.

**c) GVT - STAD GWÊL Y FOEL - TRYDAN**

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gwmni ADRA yn esbonio eu bod wedi derbyn ychydig o oleuni gyda SP yn ddiweddar, ac ychydig o waith wedi cael ei rhaglennu wythnos yma ac wythnos nesaf. Roeddent yn obeithiol fod y broses gyfreithiol sydd wedi eu dal yn nol yn dechrau dod i derfyn. Byddent yn parhau i roi pwysau ar SP er mwyn sicrhau fod y gwaith yn symud y ffordd gywir er mwyn cael croesau pawb i'w cartrefi.

Yn anffodus nid yw Adra mewn sefyllfa i ddarparu unrhyw iawndal ar gyfer storio dodrefn. Tra mae gwaith yn parhau yn y tai, nid ydynt yn gyfforddus i adael i'r preswylwyr storio dodrefn na gosod carped yn y tai. Mater arall yw ystyried yw na fyddai yswiriant yn bodoli ar gelfi'r preswylwyr pe bai rhywbeth yn digwydd.

Roeddent yn flaenorol wedi cytuno rhoi rhybudd o oeliaf 4 wythnos i'r tenantiaid cyn y byddent yn derbyn eu goriad, hyd yma nid ydynt wedi rhoi unrhyw rybudd 4 wythnos bendant i'r preswylwyr. Unwaith bydd


*Clerc Cygor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

dyddiadau pendant i'w gael gan SP a'r datblygwr byddent yn cyfleu hyn i'r preswylwyr er mwyn iddynt allu neud trefniadau cadarn.

Roedd yr aelodau yn siomedig iawn gyda'r ymateb a chodwyd cwestiwn pellach gan GVT
"Pam mae newidydd enfawr wedi'i osod yn uchel mewn golwg plaen i'r holl denantiaid er gwaethaf i'r ceblau pŵer gael eu gosod dan y ddaear?".
Cytunodd HR godi'r cwestiwn yn ei gyfarfod gyda Swyddogion ADRA yn ystod yr wythnos.

**d) <u>MYNWENT HERMON</u>**

Gyrrwyd sylwadau'r Cyngor ymlaen I Crays Evans. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach.

**e) <u>REILIAU CAE CHWARAE RHOSGADFAN</u>**

Roedd GVT wedi cyfarfod ac Ian Morgan yn ystod y mis ple cytunwyd bydd y Cyngor Sir yn fodlon gosod y rêl yn fynedfa'r cae chwarae a buasai yn gyrru gwybodaeth bellach ymlaen i'r clerc. Wedi I'r clerc ddilyn y mater cynigiodd welliant sef giât fel Coed Helen oedd yn codi, bydd hyn yn galluogi Pwyllgor y Cae Chwarae sefydlu darpariaeth bellach ar y safle yn y dyfodol.

**f) <u>GWELEDIGAETH CANOLFAN LLEU</u>**

Rhannodd NE ddiweddariadau oedd wedi ei drafod mewn cyfarfod yn ddiweddar.
Nodwyd ei fod yn gyfarfod difyr iawn gyda'r cynlluniau yn bwrw blaen yn foddhaol. Esboniodd bod yr amcangyfrif gwreiddiol i'r prosiect yn 32 miliwn ond erbyn hyn wedi codi I 40 miliwn.
Esboniodd bydd hwn yn gynllun arloesol gyda llawer o ddiddordeb. Os yn llwyddiannus bydd yn llong faner i lawer o brosiectau pellach o'r fath. Y bwriad yw dod a gwasanaethau iechyd i gyd at ei gilydd mewn un lle, bydd hyn yn cynnwys Doctors, Nyrsus, Gwasanaeth Plant, Gwasanaethau Strôc, Gwasanaeth Meddwl Iechyd; Gwasanaeth Dyled; Gwasanaeth Rhent; Gwasanaeth Tai ac yn y blaen.

Pryderon ar y cyd oedd bod un meddyg teulu ar gyfer miloedd - rheolwyr y prosiect yn ffyddiog iawn bydd y mater hwn yn gwella ar y ffordd ymlaen.
Nodwyd ei phryderon personol nad oedd digon o gyswllt hefo trigolion Llanwnda, NE am ei godi yn y cyfarfod nesaf.
Pryder arall oedd ei fod yn gynllun rhy fawr.
Byddent yn canolbwyntio ar 3 grŵp yn benodol cyn sefydlu beth yw anghenion yr ardal ac wedyn yn bwrw blaen i sefydlu tri grŵp pellach.
Y rhan cyntaf fydd y Ganolfan Iechyd, Tai Eryri a Bara Caws gyda'r fflatia a chartref yr henoed yn ail ran - gobaith yw fydd y rhan gyntaf yn barod erbyn 2025.

Bydd angen cyd weithredu agos iawn rhwng Gwasanaeth Iechyd, Cymdeithasol, Tai ac Addysg, amser a ddengys parthed hyn

**g) <u>AH - BAGIA COCH SBWRIEL WEDI EU GADAEL YM MAES PARCIO ROSTRYFAN.</u>**

Y sbwriel erbyn hyn wedi ei glirio.

**h) <u>GT – ARWYDD CYFLYMDER ELECTRONIG GER FRON WYDYR RHOSGADFAN,</u>**

Y clerc i ail adrodd y gwyn ac addasu lleoliad yr arwydd

**i) <u>EE - BINIAU SBWRIEL LLANWNDA</u>**

Adroddwyd gwyn am sbwriel ger Stesion Dinas a'r Hen Bost Llanwnda I'r Cyngor Sir yn ogystal â chwyn am sbwriel ar ochor y ffyrdd a chais am finiau baw ci ychwanegol ar Lon Eilian yn dilyn y cyfarfod. Nid oedd yn amlwg fod unrhyw waith ar gŵyn na chais wedi eu cyflawni. Cytunodd HR drafod y materion gyda'r adran.

**j) <u>CAER GORS</u>**

Nid oedd CADW wedi ymateb i gais y clerc am wybodaeth parthed rhaglen a gweithgareddau'r adeilad.
Adroddodd MW bod y safle wedi cael defnydd yn ddiweddar.
Y clerc i wneud ymholiadau pellach.

6. **MATERION MISOL**

**a) <u>CANLYNIAD ETHOLIADAU CYNGOR GWYNEDD A CHYFETHOL</u>**

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar y 13.05.22 gyda'r aelodau etholedig ble cytunwyd i gyfethol yr aelodau canlynol: Alan Hughes; Elin Evans; Tom Ellis ac Arwyn Herald Roberts

Derbyniwyd cais gan AMW I'w adleoli o fewn y strwythur i gynrychioli Dinas - cytunodd yr aelodau. Gyrrwyd gwahoddiad I Peter Roberts, ond oherwydd ymrwymiadau teuluol nid oedd am ei dderbyn.

I berwyl hyn mae strwythur y Cyngor nawr yn gorwedd fel y canlyn gydag un sedd wag yn parhau yn Rhosgadfan:

**RHOSTRYFAN:** Nerys Evans; Gwilym Lloyd Williams; Jason Hunt ac Alan Hughes
**RHOSGDFAN:** Gwilym Vaughn Thomas; Michelle Louise Williams ac Arwyn Herald Roberts
**DINAS:** Huw Rowlands; Aeron Maldwyn Jones; Elin Evans; Tom Ellis;

Nodwyd bod diddordeb wedi ei dderbyn gan unigolyn o Rostryfan a thrafodwyd oblygiadau i'w gyfethol yn Rhosgadfan. Y clerc i'w ddiweddaru ac adrodd yn ôl.

**b) CEISIADAU AM NAWDD**

Cytunodd yr aelodau gefnogi'r mudiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Ysgol Rhosgadfan | **1000** |
| Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda | **150** |
| Clwb Pêl Droed Mountain Rangers | **2000** |
| Dawns i Bawb | **300** |
| Theatr Bara Caws | **200** |
| Papur Bro Lleu | **400** |

**c) MYNWENT CEFNFAES**

- **TYRCHOD**
  Adroddodd y clerc bod 4 twrch wedi eu dal o ganlyn cyflogi Swyddog Difa Pla yn y fynwent. Cytunodd yr aelodau rhyddhau tal iddo.

- **BINIAU**
  Nid oedd y clerc wedi derbyn gohebiaeth bellach gan y Cyngor Sir parthed costau gwagio masnachol, cytunodd yr aelodau wneud trefniadau neilltuol am y tro.

**d) LLWYBR BRYN GWYN**

- Trafodwyd costau archebu a gosod arwyddion dwyieithog gyda gwelliant i'r cytundeb blaenorol yn cael ei gynnig a'i dderbyn i osod arwydd ar bob mynediad i'r llwybr i gyfeiriad Tryfan Junction. Y clerc i wneud ymholiadau am gostau 6 arwydd dwy ieithol. Gwirforolodd MW ac AH u gosod.

- Adroddodd AH ac GW eu bod wedi cerdded y llwybr a thrafod y gwaith ychwanegol gyda DH. Nodwyd nad oedd wedi cynnig pris ar gyfer Ffrench Drain ond yn hytrach yn awgrymu glanhau yn flynyddol. Y clerc i ofyn am bris glanhau 100 metr wrth y bont ac oddeutu 70 metr rhwng y Bont a Hafoty.

- Adroddodd NE bod 3 postyn wedi pydru rhwng Tyddyn Canol a Rhandir Mwyn ar y llwybr - Y clerc i ofyn am adborth gan Dylan Dyffryn Twrog Llanwnrog Uchaf

**e) MW – GWERSYLLA**

Adroddodd MW am gwynion oedd wedi eu derby am wersylla ar y tir comin rhwng Rhosgadfan a Waunfawr
Y clerc i adrodd y gwyn i'r Cyngor Sir

**f) CAIS ARIANNOL I YMGELEDDU BEDD Y DIWEDDAR J. R. TRYFANWY**

Cais gan Fair Lloyd Davies I ymgeleddu bedd y Diweddar J. R. Tyfanwy sydd wedi ei gladdu ym Mhorth y Gest, Porthmadog.
Y clerc i anfon am wybodaeth bellach e.e. manylion cronfa.

**a) AH - MEINCIAU STESION RHOSTRYFAN**

Roedd AH yn flaenorol wedi rhannu sylwadau am gyflwr difrifol y tair mainc bren ar y safle. Rhannodd y clerc gost archebu meinciau newydd compesit. Bydd hyn yn arbed pydru a fandaliaeth. Cytunodd yr aelodau bod cost o £358 + TAW'r un yn rhesymol iawn. Y clerc i fwrw blaen i'w archebu.
Gwirfoddolodd MW i glirio'r meinciau diffygiol

## 7. MATERION CYNLLUNIO

**a) RHIF CAIS: C22/0382/24/LL - CUDDFAN Y FORYD, SARON, LL54 5UL**

Gosod cuddfan adar newydd ar safle cuddfan adar blaenorol.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac wrthwynebiad

**b) RHIF CAIS: C22/0331/24/DT - TŶ MAWR, SARON, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 5UH**

Newidiadau mewnol ac allanol. Yn cynnwys gosod ffenestri newydd a drysau a gosod 2 pwmp gwres ffynhonnell aer - diwygiadau -
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac wrthwynebiad

## 8. MATERION ARIANNOL

**a) CYSONIAD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/03/2022** | | **£ 9,321.80** |
| **CYFRIF CYNILO** | **28/03/2022** | **+** | **£ 63,343.51** |
| **- Llai taliadau heb eu cyflwyno cyn y 1af o Ebrill 2022** | | **-** | **£ 2,133.00** |
| **GWARGED** | **2022 / 2023** | **+** | **-£ 10,830.20** |
| | | **=** | **£ 59,702.11** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | - |
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/04/22** | | **£ 3,111.90** |
| **CYFRIF CYNILO** | **25/04/22** | **+** | **£ 63,343.51** |
| | | **=** | **£ 66,455.41** |

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR DDATGANIADAU'R BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| 20.04.22 | Idris Jones | **101647** | £2,056.80 |
| 20.04.22 | Cylch Meithrin Dinas | **101649** | £150.00 |
| 20.04.22 | Theatr Bara Caws | **101650** | £200.00 |
| 20.04.22 | Papur Bro Lleu | **101651** | £400.00 |
| | | | **£ 2,806.80** |

**LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.05..22 | Cyflog a threuliau clerc | **101655** | £ 606.50 |
| 18.05.22 | Phil Griffith | **101656** | £40.00 |
| 18.05.22 | Ysgol Rhosgadfan | **101657** | £1,000.00 |
| 18.05.22 | Dawns i Bawb | **101658** | £300.00 |
| 18.05.22 | CPD Mountain Rangers | **101659** | £2,000.00 |
| | | | **£ 3,946.50** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** **£ 59,702.11**

| | |
|---|---|
| 9. | **GOHEBIAETH** |
| | a) **<u>YMATEB GAN ELLIW OWEN - STAD GWÊL Y FOEL DINAS</u>**<br>Gweler pwynt 5(c)<br><br>b) **<u>YMGYNGHORIAD CYMUNEDOL PARC GLYNLLIFON -</u>**<br>Fel aelod sydd wedi bod mewn cyfarfodydd Parc Glynllifon cytunodd NE roi sylw iddo<br><br>c) **<u>AROLWG BUSNES GWYNEDD</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw adborth<br><br>d) **<u>AROLWG AWDIT CYMRU –</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw adborth<br><br>e) **<u>SWYDDOG LLEOEDD LLEOL AR GYFER NATUR - CADWCH GYMRU'N DACLUS - CEISIADAU AR GYFER PECYNNAU -</u>**<br>Y clerc i wneud cais<br><br>f) **<u>DATGANIAD PETE ROBERTS</u>**<br>Gweler 6(a) |
| 10. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | **a)** **<u>AH – GOLEUADAU YSGOL RHOSTRYFAN</u>**<br>Adroddodd AH ei fod wedi derbyn cwynion bod golau o gwmpas yr ysgol yn creu ychydig o drafferth i'r trigolion gyda'r nos gan eu bod yn eithriadol o lachar.<br>Y clerc i adrodd y gwyn<br><br>**b)** **<u>MW - LLIFOGYDD</u>**<br>Derbyniwyd cais gan MW I'r clerc atgoffa'r Cyngor Sir am lifogydd yn wastad ochor isaf Pont Wernlas Ddu - Awgrymodd mai tebyg bod y dreiniau angen eu glannau.<br>Y clerc i weithredu<br><br>**c)** **<u>NE – CROGCHWYN YNG NGHAE CHWARAE RHOSGADFAN</u>**<br>Adroddodd NE bod y grog chwyn bellach yn tyfu allan o bob rheswm ac yn creu rhwystr ofnadwy i fodurwyr i'r ddwy ffordd. Y clerc i drafod gyda DH a'r Cyngor Sir os bydd angen.<br><br>d) **<u>TE – GOLEUADAU CYLCHFAN LLANWNDA</u>**<br>Roedd wedi dod i sylw TE bod botymau i geffylau ar y goleuadau croesi newydd er gwaethaf nad oedd llwybr marchogaeth yn Llanwnda - y clerc i ofyn am adborth gan y Cyngor Sir |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 15 ed o Fehefin yng Nghapel Rhostryfan I gychwyn gyda Chyfarfod Blynyddol am 7 |